Withdrawn on 20 October 2020 as it is over 2 years old.

COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# NEWYDDION

Newyddion y CE 54 - Gorffennaf 2016

**Cynnwys**


- Ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau wedi gostwng, yn ôl adroddiad y comisiwn
- Newidiadau i'r rhai sy'n codi arian gan y cyhoedd
- Adroddiad blynyddol y Comisiwn Elusennau 2015-16
- Y Ddeddf Elusennau a'ch barn chi ar bwerau newydd i'r comisiwn
- Hyrwyddo'r defnydd effeithiol o asedau ac adnoddau
- Gwella ansawdd cyfrifon elusennau bach
- Cofrestr Tŷ'r Cwmnïau o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol
- Nodyn i'ch atgoffa am ryddhad ardrethi busnes
- Ymgynghori ar y fframwaith ar gyfer cyfrifyddu ac adrodd
- Cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus yng Nghymru
- Canllawiau i elusennau ar achosion cyfreithiol
- Trechu twyll yn y sector elusennol
- Rheoli'r mynydd o bapur
- E-bost rhybudd o derfysgaeth wedi'i ddiweddaru
- Ydy'ch manylion cyswllt yn gyfoes?


## Ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau wedi gostwng, yn ôl adroddiad y comisiwn

Mae ein hymchwil dwyflynyddol ar ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau yn dangos bod ffydd wedi gostwng o 6.7 allan o 10 yn 2014 i 5.7 allan o 10 eleni. Yn ôl **yr adroddiad** mae'r gostyngiad i'w briodoli i sylw beirniadol yn y cyfryngau o arferion elusennau, drwgdybiaeth ynghylch sut mae elusennau'n gwario rhoddion, a diffyg gwybodaeth ar ran y cyhoedd ynghylch i ble mae eu rhoddion yn mynd. Mae canfyddiadau o dactegau codi arian ymosodol hefyd wedi cyfrannu at y dirywiad mewn ffydd a hyder.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn dangos y ffactorau y mae ffydd gyhoeddus yn dibynnu arnynt. Fel y dywedodd Sarah Atkinson, ein Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebiadau, mae'n darparu *"map ffordd clir ar gyfer adfer ffydd: gwneud cysylltiadau â'r cyhoedd, cyrraedd safonau uchel ar gyfer codi a rheoli arian, esbonio hyn oll yn glir, a dangos sut rydych yn gwneud gwahaniaeth i'r achos"*. Darllenwch ragor ar ein blog ar **sut y gall elusennau helpu i ailadeiladu ffydd yn y sector**.

## Newidiadau i'r rhai sy'n codi arian gan y cyhoedd

Cyhoeddwyd ein **canllaw wedi'i ddiweddaru ar godi arian** yn ddiweddar. Mae'n hollbwysig bod unrhyw elusennau sy'n codi arian gan y cyhoedd yn darllen y canllaw, ac eglurir mai'r ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol yn y pen draw am weithgareddau codi arian eu helusen. Mae'n nodi 6 phrif egwyddor i helpu ymddiriedolwyr i gydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol pan fyddant yn goruchwylio gweithgareddau codi arian eu helusen. Cyfeiriwn at wybodaeth arall ar y rheolau cyfreithiol ynghylch codi arian, a chrëwyd **rhestr wirio** ddefnyddiol y gallwch ei defnyddio i werthuso sut y mae'ch elusen yn ei wneud.

Ochr yn ochr â'r canllaw newydd hwn, lansiwyd y rheoleiddiwr annibynnol newydd ar gyfer codi arian elusennol ar 7 Gorffennaf a bydd yn dechrau cofrestru elusennau yn yr hydref. Bydd cymorth ar gyfer y Rheoleiddiwr Codi Arian yn hollbwysig i fynd i'r afael â phryderon cyhoeddus am y materion hyn. Byddem yn annog pob elusen i gofrestru i gael cyfathrebiadau gan y sefydliad trwy **ei wefan**. Bydd rhagor o wybodaeth ynghylch sut i gofrestru yn cael ei ddarparu gan y Rheoleiddiwr Codi Arian cyn bo hir.

## Adroddiad blynyddol y Comisiwn Elusennau 2015-16

Cyhoeddwyd ein **hadroddiad blynyddol** ar gyfer 2015-16 yn ddiweddar. Mae'n dangos sut rydym wedi hyrwyddo dulliau llywodraethu cryfach a mwy o oruchwyliaeth gan ymddiriedolwyr mewn elusennau dros y flwyddyn ddiwethaf trwy fentrau fel ein canllaw cliriach **Yr ymddiriedolwr hanfodol** a'r canllawiau diwygiedig ar wydnwch ariannol a chodi arian.

Mae ein hadroddiad yn amlinellu sut rydym wedi cyflawni yn erbyn ein cynllun strategol ac mae'n esbonio sut rydym yn parhau i drawsnewid ein gwaith yn ddigidol i wneud mwy o fewn yr un gyllideb.

Withdrawn on 20 October 2020 as it is over 2 years old.

## Y Ddeddf Elusennau a'ch barn chi am y pwerau newydd i'r comisiwn

Mae nifer o bwerau yn y Ddeddf Elusennau newydd yn dod i rym dros y 6 mis nesaf. Mae **Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi amserlen yn esbonio pryd ddaw'r rhain i rym**. Un ddarpariaeth arwyddocaol newydd yn y Ddeddf yw ein pŵer i anghymhwyso unigolion rhag bod yn ymddiriedolwyr a dal swyddi uwch reolwyr elusennau. Mae **ymgynghoriad** gennym ar y pwnc hwn sydd ar agor tan 22 Awst a chroesawn eich barn chi ar ein hymagwedd arfaethedig i arfer y pŵer hwn. Rydym hefyd yn **ymgynghori ar hyn o bryd** ar y defnydd o'r pŵer rhybudd swyddogol sydd ar gael i ni o fis Hydref eleni.

Er y bydd rhai o'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio mewn ymchwiliadau statudol yn unig ac yn effeithio ar nifer weddol fach o elusennau ac ymddiriedolwyr, byddant yn gwella ein gallu i ddatrys achosion gyda chanlyniad rheoleiddiol gwell. I gael rhagor o fanylion ar sut y gall y Ddeddf Elusennau effeithio ar eich elusen chi, ewch **i'n blog**.

## Hyrwyddo'r defnydd effeithiol o asedau ac adnoddau

Er bod llawer o'n gwaith gyda'r cyhoedd yn gysylltiedig â chydymffurfiaeth, mae tua dwy ran o dair o'n gwaith achos yn cynnwys helpu elusennau i ddatrys problemau. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd fel:

- rhoi awdurdod i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol negodi cytundeb gyda'i thenantiaid i ildio'r hawl i ganran o rent tir modern
- yn 1931 gadawodd sylfaenydd Lipton Tea ei gartref i nyrsys sydd wedi ymddeol ond nid yw'n ymarferol mwyach i'w gadw ar agor; newidiwyd dogfen lywodraethol The Sir Thomas Lipton Charity er mwyn i'r ymddiriedolwr allu cael gwared ar yr eiddo ac ystyried ateb mwy addas

Os hoffech wybod rhagor am wneud newidiadau i'ch asedau neu adnoddau er mwyn gweithredu'n fwy effeithlon, darllenwch ein **canllaw**.

## Gwella ansawdd cyfrifon elusennau bach

Oes gan eich elusen incwm blynyddol o lai na £25,000? Os oes, nid yw'n ofynnol i chi ffeilio adroddiad blynyddol a chyfrifon gyda ni pan fyddwch yn cwblhau eich ffurflen flynyddol (oni bai bod eich elusen yn Sefydliad Corfforedig Elusennol), ond mae dal yn ofynnol i chi baratoi a sicrhau bod y rhain ar gael ar gais.

Cyhoeddwyd ein **hadroddiad cyntaf ar ansawdd y cyfrifon a gynhyrchir gan elusennau bach** yn ddiweddar, ac yn ôl yr adroddiad hwnnw mae ychydig llai na hanner yr elusennau yn ein sampl wedi cynhyrchu cyfrifon oedd yn bodloni safon sylfaenol ofynnol. Y gwendid mwyaf cyffredin oedd diffyg adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr, ac nid oedd un ym mhob chwech wedi darparu unrhyw adroddiad naratif gyda'u cyfrifon, ac roedd un ym mhob pump wedi anfon datganiad gan y cadeirydd neu nodiadau o gyfarfod blynyddol yn hytrach nag adroddiad blynyddol. Defnyddiwch **ein canllawiau a thempledi** i gynhyrchu adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a chyfrifon sy'n bodloni ein gofynion ac yn rhoi gwybodaeth i'ch cefnogwyr am weithgareddau eich elusen.

### Cofrestr Tŷ'r Cwmnïau o Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol

Mae cyfraith newydd wedi dod i rym yn ddiweddar sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob cwmni, gan gynnwys elusennau sy'n gwmnïau, i gofrestru'r bobl a all ddylanwadu neu reoli cwmni, a elwir Pobl â Rheolaeth Arwyddocaol. Y nod yw adnabod y bobl hynny sydd â rheolaeth neu berchnogaeth derfynol o'r cwmni, er enghraifft prif fudd-ddeiliaid. Bydd rhaid i gwmnïau nodi'r Bobl â Rheolaeth Arwyddocaol hyn, cofnodi manylion ar eu cofrestr eu hunain, a ffeilio'r wybodaeth hon gyda Thŷ'r Cwmnïau. Mae'n bwysig nodi na fydd Pobl â Rheolaeth Arwyddocaol o gwmnïau elusennol yn ymddiriedolwyr eich elusen o reidrwydd, a disgwyliwn na fydd Pobl â Rheolaeth Arwyddocaol gan rai cwmnïau elusennol. Gall cwmnïau sydd heb gydymffurfio â'r rheoliadau gael eu dirwyo, felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darllen yr **wybodaeth yn llawn**.

Withdrawn on 20 October 2020 as it is over 2 years old.

## Nodyn i'ch atgoffa am ryddhad ardrethi busnes

Rydym yn ymwybodol bod adwerthwyr a landlordiaid yn cysylltu â rhai elusennau ynghylch cytundebau tenantiaeth a fyddai'n rhoi'r hawl iddynt gael **disgownt ar ardrethi busnes**. Atgoffir ymddiriedolwyr cyn iddynt arwyddo unrhyw gytundebau tenantiaeth i feddiannu eiddo gwag, bod rhaid iddynt:

- sicrhau bod y cytundeb tenantiaeth er budd yr elusen yn unig, ac y bydd yn hyrwyddo dibenion yr elusen a'i fod er lles gorau'r elusen
- sicrhau bod gwir angen am yr eiddo a'i fod yn addas i'r pwrpas
- ystyried atebolrwydd posibl yr elusen i dalu ardrethi sy'n ddyledus os yw'r awdurdod lleol yn dadlau ynghylch y defnydd o'r eiddo ac yn gwrthod rhyddhad ardrethi
- diogelu'n ofalus iawn annibyniaeth yr elusen a sicrhau nad yw'r elusen yn cael ei chamddefnyddio er budd cwmni masnachol
- bod yn ofalus a lle'n bosib ceisio cyngor proffesiynol annibynnol gan yr adran berthnasol o'r cyngor neu gynghorydd cyfreithiol

### Ymgynghori ar y fframwaith ar gyfer cyfrifyddu ac adrodd

Yn y comisiwn ceisiwn roi fframwaith syml i ymddiriedolwyr ar gyfer paratoi adroddiadau a chyfrifon. Mae cwmnïau elusennol ac elusennau mwy yn paratoi eu cyfrifon trwy ddefnyddio'r Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP), sy'n amlinellu cynnwys gofynnol adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a'r cyfrifon. Ar hyn o bryd rydym ni, ynghyd â Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban, yn ceisio eich barn chi ar sut y gellid gwella'r SORP. Gallwch weld y ddogfen ymgynghori ar y **micro-safle SORP** arbennig a bydd yn cau ar 11 Rhagfyr 2016.

## Cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus yng Nghymru

Ar 7 Mehefin cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Llandrindod, Cymru. Agorwyd y digwyddiad gan William Shawcross a'r Dirprwy Gadeirydd ac aelod bwrdd, Eryl Besse, a daeth dros 100 o gynrychiolwyr ynghyd o amryw o elusennau. Cafwyd cyflwyniadau gan staff yn y comisiwn a NCVO ar sut y gall elusennau wella eu gwydnwch ariannol. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys:

- rheoli eich cyllid - 15 cwestiwn allweddol i ofyn
- gwella'r ffordd y mae'ch elusen yn gweithio
- digideiddio'r comisiwn

Cafwyd trafodaeth grŵp diddorol hefyd am y materion y mae ymddiriedolwyr yn eu hwynebu ar hyn o bryd a'r atebion posibl. Mae'r sleidiau o'r digwyddiad ar gael ar **GOV.UK**. I gael manylion am y cyfarfod cyhoeddus nesaf, cadwch olwg ar ein **hafan** a'r **cyfryngau cymdeithasol**.

## Canllawiau i elusennau ar achosion cyfreithiol

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau newydd sbon ar gyfer ymddiriedolwyr ar ymgyfreitha yn fuan. Gall achosion cyfreithiol fod yn risg arwyddocaol i elusennau, a bydd y canllaw hwn yn rhoi cyngor ar yr hyn y mae angen i ymddiriedolwyr ei wybod pan fyddant yn ystyried cymryd neu amddiffyn achos cyfreithiol, a phryd y bydd angen i ni weithredu.

Rhaid i'r penderfyniad i gychwyn neu amddiffyn ymgyfreitha neu beidio gael ei wneud er lles gorau'r elusen yn unig a rhaid ei gydbwyso yn erbyn risgiau a chanlyniadau posibl unrhyw achos cyfreithiol. Bydd y cyfarwyddyd a seiliau cyfreithiol llawn yn cael eu cyhoeddi ar GOV.UK cyn bo hir.

Withdrawn on 20 October 2020 as it is over 2 years old.

## Trechu twyll yn y sector elusennol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi datblygu sawl menter i wella'r gwaith da y mae elusennau eisoes yn ei wneud i fynd i'r afael â thwyll, ac rydym yn cefnogi gwaith ymchwil sy'n ceisio gwella dealltwriaeth y sector o'r hyn sy'n cymell twyllwyr elusennau. Ers y rhifyn diwethaf o Newyddion y Comisiwn Elusennau, **rhybuddiwyd** elusennau am y risg o seiberdwyll a galwadau cribddeiliaeth ar-lein.

Rydym wedi sefydlu **Grŵp Atal Twyll y Sector Elusennol** hefyd sy'n dwyn ynghyd dros 30 o elusennau, cyrff proffesiynol a budd-ddeiliaid eraill i wella gwydnwch twyll y sector. Mae **tudalennau gwe** Grŵp Atal Twyll y Sector Elusennol wedi'u neilltuo'n benodol i rannu arferion da ar fynd i'r afael â thwyll mewn elusennau, ac ar 28 Hydref byddwn ni a'r Panel Cynghori ar Dwyll yn cynnal ail **Gynhadledd Twyll Elusennau Genedlaethol**. Byddwn hefyd yn cynnal gweithdai twyll rhanbarthol ar y cyd maes o law.

### Rheoli'r mynydd o bapur

Bydd llawer o bobl yn aml yn gofyn ynghylch y gofynion cadw cofnodion a pha mor hir y mae'n rhaid iddynt gadw gwybodaeth ariannol allweddol. Yn ffodus, mae **taflen ffeithiau** ddefnyddiol gan Buzzacott Accountants ar y cyfnod cadw a awgrymir ar gyfer y dogfennau mwyaf cyffredin sydd gan elusennau.

## E-bost rhybudd o derfysgaeth wedi'i ddiweddaru

Y llynedd roedd yr Uned Ymchwiliad Ariannol Terfysgaeth Genedlaethol a'r comisiwn wedi rhyddhau **rhybudd** am ddyletswyddau ymddiriedolwyr ac eraill sy'n ymwneud ag elusennau, o dan adran 19 o Ddeddf Terfysgaeth 2000. Sylwch mae cyfeiriad e-bost newydd erbyn hyn i adrodd am bryderon ynghylch trosedd adran 19 yn cael ei chyflawni: **S19Alerts@met.pnn.police.uk**. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr sicrhau hefyd bod unrhyw amheuon neu gredoau yn cael eu hadrodd i ni o dan y **fframwaith Adrodd am Ddigwyddiadau Difrifol**.

### Ydy'ch manylion cyswllt yn gyfoes?

Cymrwch eiliad i fewngofnodi i'n **porthol ar-lein** a gwnewch yn siŵr bod y manylion cyswllt cywir gennym ar gyfer cysylltiadau a enwir eich elusen, gan gynnwys cyfeiriad e-bost cyfoes, er mwyn i ni allu cysylltu â chi'n gyflym pan fydd angen.

Am gadw i fyny â'n newyddion, canllawiau a digwyddiadau? Gwnewch yn siŵr eich bod yn ein dilyn ni ar **Twitter @ChtyCommission**, **LinkedIn**, and sign up to our **blog**